# Rydych chi wedi cwyno am berson





Dyma beth sy’n digwydd os ydych chi’n cwyno am:

- cynghorydd
- aelod o’r bwrdd ar gyfer Tân ac Achub neu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Paneli'r Heddlu a Throseddu




**Mae’r dudalen gefn yn dweud wrthoch chi sut i gael mwy o wybodaeth.**



**Gallwch chi siarad gyda ni os dydy chi ddim yn siŵr am gwyno i ni.**




**Rydw i wedi anfon cwyn**



Byddwn ni'n dweud wrthoch chi ein bod ni wedi cael eich cwyn.

Rydym ni'n gwirio:




- Ydych chi wedi rhoi tystiolaeth i ni bod y person wedi torri'r rheolau?
- Ydy eich cwyn am rywbeth difrifol?



**Gallwn ni wneud rhywbeth dim ond os mai'r ateb i'r ddau gwestiwn yw "ydw/ydy".**



Byddwn ni'n gwirio hyn mewn 4 wythnos.

Byddwn ni'n dweud wrthoch chi os gallwn ni wneud rhywbeth am eich cwyn.



## Beth sy’n digwydd os dydyn ni ddim yn gallu helpu?



Byddwn ni’n ysgrifennu i ddweud wrthoch chi os dydyn ni ddim yn meddwl eich bod chi wedi rhoi tystiolaeth i ni bod y person wedi torri’r rheolau. Byddwn ni’n dweud wrth y person yr ydych chi wedi cwyno amdanyn nhw am ein penderfyniad.



Mae rhywun gyda’r cyngor neu’r awdurdod sy’n gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheolau. Byddwn ni’n dweud wrth y person yna am ein penderfyniad.

## Beth sy'n digwydd os gallwn ni helpu?





Os mai'r ateb i'r ddau gwestiwn oedd "ydw/ ydy", byddwn ni'n ysgrifennu a dweud wrthoch chi y byddwn ni'n edrych ar y peth.



Efallai byddwn ni'n gofyn i chi am fwy o wybodaeth.



Byddwn ni'n dweud wrth y person yr ydych chi wedi cwyno amdanyn nhw. Mae rhywun gyda'r cyngor neu'r awdurdod sy'n gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheolau. Byddwn ni'n dweud wrth y person yna am eich cwyn.



Efallai byddwn ni'n gofyn am gopïau o bapurau. Efallai byddwn ni'n siarad gyda phobl eraill.




Byddwn ni'n dweud wrthoch chi beth rydyn ni'n ei wneud

Efallai bydd yn cymryd hyd at 12 mis.



Mae'n rhaid i chi gadw'r manylion yn breifat. Mae hyn yn golygu bod neb yn cael siarad gyda phapurau newydd neu'r teledu am y gŵyn.



Pan fydd yr wybodaeth i gyd gyda ni, byddwn ni'n ysgrifennu:




- atoch chi



- at y person y gwnaethoch chi gwyno amdanyn nhw



- y person sy'n gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheolau



Efallai byddwn ni'n penderfynu:



- Dydy'r person ddim wedi gwneud unrhyw beth yn anghywir.




- Torrodd y person y rheolau, ond dydy e ddim yn ddifrifol.



- Torrodd y person y rheolau ac rydyn ni'n mynd i ddweud wrth y Pwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru iddyn nhw benderfynu beth i'w wneud.



## Dydw i ddim yn hapus gyda beth ydych chi wedi ei wneud






Os ydych chi'n credu ein bod ni wedi gwneud y peth anghywir, mae'n rhaid i chi ysgrifennu aton ni o fewn 4 wythnos.

Gallwch chi ofyn i ni edrych ar y peth eto **os:**



- mae tystiolaeth newydd gyda chi



- gallwch chi ddangos ein bod ni ddim wedi meddwl am yr holl wybodaeth oedd gyda ni.



Byddwn ni'n penderfynu os byddwn ni'n edrych eto ar eich cwyn.

## Cysylltu â ni



Ffôn 0300 790 0203




E-bost holwch@ombwdsmon.cymru




Gwe www.ombwdsmon.cymru



Ysgrifennu

Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ